Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Asesiad Strwythuredig 2015

# Ymddiriedolaeth GIG Felindre

**Blwyddyn archwilio:** 2015

**Dyddiad:** Rhagfyr 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 648A2015

# Statws yr adroddiad

Mae'r ddogfen hon wedi ei pharatoi fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn pennu'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@wao.gov.uk.

Aelodau'r tîm a fu'n fy nghynorthwyo i baratoi'r adroddiad hwn oedd Ann-Marie Harkin, David Thomas, Tracy Veale, Stephen Lisle a Gillian Gillett.

# Cynnwys

Mae'r trefniadau i gynorthwyo llywodraethu da a defnyddio adnoddau yn effeithlon ac effeithiol yn parhau i esblygu, a gwnaed cynnydd da mewn llawer maes. Mae'r rheolaeth ariannol yn gadarn ac er bod yr Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn cadw o fewn ei chyllideb, mae yna heriau ariannol sy'n gofyn am sylw pellach.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cyd-destun | 4 |
| Prif ganfyddiadau | 4 |
| Argymhellion | 6 |
| Yr adroddiad manwl | |
| **Llywodraethu'r busnes:** Mae llywodraethu a sicrwydd Bwrdd yn parhau i esblygu, a gwnaed cynnydd da o ran cryfhau'r dulliau o reoli risgiau a rheoli perfformiad | 7 |
| **Rheolaeth ariannol:** Mae rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gadarn ac mae'n debygol y bydd yn cadw o fewn ei chyllideb eleni. Parheir i wynebu rhai heriau, yn enwedig o ran cyllid a phwysau'r galw yn y ganolfan ganser, ac ar lefel yr Ymddiriedolaeth mae lle iddi wella ymhellach ei hagwedd at arbedion | 18 |
| **Galluogwyr defnyddio adnoddau yn effeithlon, effeithiol a darbodus:** Mae'r Ymddiriedolaeth yn buddsoddi'n dda mewn TGCh ac yn gweithio'n galed i ymgysylltu ag eraill, er ei bod yn wynebu nifer fach o heriau ynglŷn â'r gweithlu a risgiau i'w gallu i gyflwyno newid ar raddfa eang oherwydd materion galluoedd arweinyddol | 20 |
| Atodiadau | |
| Canfyddiadau o Asesiad Strwythuredig Interim Gorffennaf 2015 | 27 |
| Argymhellion o Asesiad Strwythuredig 2014 | 31 |

# Adroddiad cryno

## Cyd-destun

**1.** Canolfan ragoriaeth arbenigol ar gyfer canser a gwasanethau gwaed yw Ymddiriedolaeth Gig Felindre (yr Ymddiriedolaeth). Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddwy is-adran, sef Canolfan Ganser Felindre (CGF) a Gwasanaeth Gwaed Cymru (GGC), yn ogystal ag adrannau corfforaethol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn lletya amrywiaeth o sefydliadau allanol1 ar ran GIG Cymru. Mae ein Hasesiad Strwythuredig yn cwmpasu trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth ei hunan, ac nid trefniadau llywodraethu'r sefydliadau a letyir.

**2.** Mae'r Asesiad Strwythuredig wedi archwilio cadernid trefniadau rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth, digonoldeb ei threfniadau llywodraethu a'r cynnydd sydd wedi ei wneud ers Asesiad Strwythuredig y llynedd. Strwythurwyd y gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol:

- **llywodraethu'r busnes: sy'n cynnwys cynllunio strategol a gweithredol, strwythurau llywodraethu a phwyllgorau, rheoli risgiau a rheolaethau mewnol, rheoli perfformiad;**
- **rheolaeth ariannol : sy'n cynnwys iechyd ariannol, cynllunio ariannol a gwella costau; a**
- **galluogwyr defnyddio adnoddau yn effeithlon, effeithiol a darbodus: rheoli newid, datblygu'r gweithlu a'r sefydliad, partneriaethau ac ymgysylltu, a systemau gwybodaeth thechnoleg.**

**3.** Rydym wedi cyflawni'r Asesiad Strwythuredig gan ddefnyddio dull mwy di-dor eleni, ac yng Ngorffennaf 2015 cyflwynwyd llythyr i'r Ymddiriedolaeth a oedd yn nodi ein canfyddiadau interim (a gynhwysir yn Atodiad 1). Bu'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried y llythyr ym mis Hydref 2015. Mae Atodiad 2 yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaed tuag at weithredu'r argymhellion.

## Y prif gasgliadau

**4.** Yn 2014, daeth ein Asesiad Strwythuredig i'r casgliad bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn ar gyfer llywodraethu a rheolaeth ariannol, y gallai'r Ymddiriedolaeth eu gwella ymhellach drwy gryfhau gwybodaeth reoli a chraff, a sicrhau bod pob rhan o'r sefydliad yn cymryd camau allweddol i gael gwell gwerth am arian.

**5.** Yn 2015, gwelsom y cynnydd yn parhau o fewn yr Ymddiriedolaeth, a'r casgliad cyffredinol y deuwn iddo yn ein Hasesiad Strwythuredig yw fod rheolaeth ariannol yn gadarn ac er bod yr Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn cadw o fewn ei chyllideb, mae yna heriau ariannol sy'n gofyn am sylw pellach. Mae'r trefniadau i gynorthwyo

---

[1] Y sefydliadau a letyir yw Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC), Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), Canolfan Ymchwil Glinigol y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NISCHR CRC) a'r Ganolfan Genedlaethol Cydweithredu dros Ganser (NCC-C).

llywodraethu da a defnyddio adnoddau yn effeithlon, effeithiol a darbodus yn parhau i esblygu, a gwneir cynnydd da mewn rhai meysydd.

**6.** Mewn perthynas â llywodraethu'r busnes, daethom i'r casgliad canlynol: mae llywodraethu a sicrwydd Bwrdd yn parhau i esblygu, a gwneir cynnydd da o ran cryfhau'r dulliau o reoli risgiau a rheoli perfformiad:

- **Cynllunio strategol a gweithredol:** mae'r Cynllun Canoldymor Integredig (CCI) yn dod yn rhan mwy annatod o ffyrdd arferol yr Ymddiriedolaeth o weithio. Mae'r Ymddiriedolaeth yn fwriadol wedi gosod amcanion uchelgeisiol, er na fydd rhai o'r camau gweithredu yn cael eu cyflawni mewn pryd.
- **Strwythurau llywodraethu a phwyllgorau:** mae'r pwyllgorau'n darparu craffu a sicrwydd effeithiol, a gwaith yn parhau i wella'r agendâu ymhellach. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr angen i adolygu trefniadau llywodraethu'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser (TGC) a rhoi sylw i gynllunio olyniaeth ar gyfer Aelodau Annibynnol (AAau).
- **Rheoli risgiau a rheolaethau mewnol:** mae rheoli risgiau yn gwella – mae'r cofrestrau yn fwy amlwg ac yn cael eu hystyried yn amlach, ond gellir treulio amser gwerthfawr mewn pwyllgor yn trafod mân anghywirdebau yn y gofrestr risgiau.
- **Rheoli perfformiad:** gwneir cynnydd da tuag at wella'r fframwaith rheoli perfformiad ymhellach a sicrhau bod cyflawni 'r CCI yn dod yn rhan mwy annatod o waith beunyddiol yr Ymddiriedolaeth.

**7.** Mewn perthynas â rheolaeth ariannol, daethom i'r casgliad canlynol: mae rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gadarn ac mae'n debygol y bydd yn cadw o fewn ei chyllideb eleni. Parheir i wynebu rhai heriau, yn enwedig o ran cyllid a phwysau'r galw yn y ganolfan ganser, ac ar lefel yr Ymddiriedolaeth, mae lle iddi wella ymhellach ei hagwedd at arbedion.

**8.** Mawn perthynas â galluogwyr defnyddio adnoddau yn effeithlon, effeithiol a darbodus, daethom i'r casgliad canlynol: mae'r Ymddiriedolaeth yn buddsoddi'n dda mewn TGCh ac yn gweithio'n galed i ymgysylltu ag eraill, er ei bod yn wynebu nifer fach o heriau ynglŷn â'r gweithlu a risgiau i'w gallu i gyflwyno newid ar raddfa eang oherwydd materion galluoedd arweinyddol:

- **rheoli newid:** mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd trwy gyfnod estynedig o newid pell-gyrhaeddol, ac er bod y rhaglenni ar gyfer newid yn symud ymlaen yn dda, mae maint y baich gwaith ychwanegol yn achosi risgiau i'r gallu i gyflenwi;
- **y gweithlu a datblygu sefydliadol:** er bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i wynebu nifer fach o anawsterau perfformiad mewn perthynas â materion gweithlu, mae gan y Strategaeth Ddatblygu Sefydliadol arfaethedig y potensial i sbarduno gwelliant;
- **partneriaethau ac ymgysylltu:** mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid ynglŷn â'i rhaglenni newidiadau mawr, ac yn cydnabod mor bwysig yw gwella'i ffordd o weithio mewn partneriaeth â'r staff, o ystyried maint y newid sefydliadol a gynllunnir; a

- **systemau gwybodaeth a thechnoleg:** mae'r Ymddiriedolaeth yn buddsoddi'n gymharol dda mewn TGCh, ac i raddau helaeth mae'r adnoddau TGCh presennol yn effeithiol fel cymorth ar gyfer cyflenwi'r gwasanaethau, er bod nifer fach o broblemau gyda systemau, sy'n effeithio ar gyflenwi gwasanaethau.

## Argymhellion

**9.** Mae ein Hasesiad Strwythuredig eleni wedi canfod cynnydd da mewn nifer o feysydd. Mae ein gwaith hefyd wedi tynnu sylw at gyfleoedd i wella ymhellach, ac felly rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| R1 | **Cynllunio strategol a gweithredol.** Dylai'r Ymddiriedolaeth: | |
| | a. | cryfhau'r craffu, ar lefel y Bwrdd, ar agweddau ar yr CCI sy'n hwyr yn cael eu cyflawni, er mwyn adeiladu ar ystyriaethau o'r materion hyn ar lefel pwyllgor, a sicrhau y gwneir penderfyniadau cynnar ar unrhyw gamau weithredu sy'n ofynnol. |
| R2 | **Strwythurau llywodraethu a phwyllgorau.** Dylai'r Ymddiriedolaeth: | |
| | a. | sicrhau bod y Bwrdd yn penderfynu ar y camau gweithredu sy'n ofynnol yn dilyn yr adolygiad o lywodraethu yn y rhaglen TGC; ac |
| | b. | adolygu tudalen glawr y templed ar gyfer papurau Bwrdd a phapurau pwyllgor er mwyn cael gwell eglurder ynghylch y deilliannau a ddisgwylir o bob papur. |
| R3 | **Rheoli perfformiad**. Dylai'r Ymddiriedolaeth: | |
| | a. | gwella'r adroddiad perfformiad ymhellach gan roi sylw i'r materion a godir yn yr adroddiad Asesiad Strwythuredig hwn; |
| | b. | datblygu cynllun gweithredu sy'n pennu sut a pha bryd y bydd yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei hymagwedd at feincnodi; |
| | c. | ehangu ymhellach yr ystod o ddulliau a ddefnyddir ganddi i gasglu adborth gan gleifion a rhoddwyr gwaed, gan ddefnyddio, fel ffynhonnell i gyfeirio ati, ein hadroddiad yn 2013 ar brofiad defnyddwyr y gwasanaeth; a |
| | d. | chryfhau ei hadroddiad ar brofiad rhoddwyr gwaed drwy adeiladu ar y newidiadau positif a wnaed i'r adroddiad ar brofiad cleifion yn y ganolfan ganser. |
| R4 | **Rheoli risgiau**. Dylai'r Ymddiriedolaeth: | |
| | a. | gwella'r broses ar gyfer adrodd am y gofrestr risgiau wrth y Bwrdd a phwyllgorau, er mwyn sicrhau na wastreffir amser yn trafod mân anghywirdebau yn y gofrestr. |
| R5 | **Rheolaeth ariannol**. Dylai'r Ymddiriedolaeth: | |
| | a. | lleihau ei dibyniaeth ar arbedion anrheolaidd achlysurol a phennu cynlluniau mwy hirdymor ar gyfer arbedion a chyllido. |
| R6 | **Rheoli newid**. Dylai'r Ymddiriedolaeth: | |
| | a. | cynnal asesiad risg ar ddigonoldeb galluoedd yr uwch-arweinyddiaeth i gyflenwi newid ar raddfa eang; a |
| | b. | datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwella effeithiolrwydd y Fforwm Partneriaeth Lleol er mwyn sicrhau gwell ymgysylltu â'r staff. |

# Yr adroddiad manwl

## Llywodraethu'r busnes

### Mae llywodraethu a sicrwydd Bwrdd yn parhau i esblygu, a gwnaed cynnydd da o ran cryfhau'r dulliau o reoli risgiau a rheoli perfformiad

**10.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried ein gwaith ar lywodraethu a sicrwydd Bwrdd. Rydym wedi canolbwyntio yn ein gwaith ar y meysydd ar gyfer gwella a amlygwyd mewn asesiadau strwythuredig blaenorol, ac rydym yn cyflwyno ein canfyddiadau o dan y themâu canlynol:

- Cynllunio strategol a gweithredol
- Strwythurau llywodraethu a phwyllgorau
- Rheoli risgiau a rheolaethau mewnol
- Rheoli perfformiad

**Cynllunio strategol a gweithredol:** mae'r Cynllun Canoldymor Integredig (CCI) yn dod yn rhan mwy annatod o ffyrdd arferol yr Ymddiriedolaeth o weithio. Mae'r Ymddiriedolaeth yn fwriadol wedi gosod amcanion uchelgeisiol, er na fydd rhai o'r camau gweithredu yn cael eu cyflawni mewn pryd

**11.** Yn Asesiad Strwythuredig y llynedd, dywedasom fod yr Ymddiriedolaeth wedi paratoi CCI cynhwysol a arweinid gan glinigwyr, gyda chyfranogiad cryf pwyllgorau'r Ymddiriedolaeth.

**12.** Eleni, canfuom fod proses CCI yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2015-16 i 2017-18 yn parhau i esblygu. Yn ein cyfweliadau, dywedodd y staff a'r AAau wrthym fod y dull a ddilynid yn y broses o ddiweddaru'r CCI yn un cynhwysol ac yn gweithredu o'r gwaelod i fyny, gyda'r timau yn datblygu eu blaenoriaethau ac yn eu bwydo yn gyntaf i'r cynlluniau is-adrannol, ac wedyn yn eu tro i'r CCI cyffredinol. Gwnaed hunanasesiad gan bob is-adran at y diben o adfyfyrio ar y dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CCI yn 2014-15. Bu'r Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad yn craffu'n ffurfiol ar grynodeb gweithredol o'r asesiadau hyn ym Medi 2015. Roedd cyfraniad pwyllgorau'r Ymddiriedolaeth i'r gwaith o graffu ar y cynllun yn gynhwysfawr unwaith eto.

**13.** Mae'r a ddiweddarwyd yn darparu gweledigaeth eglur sydd wedi ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Bu'r cynllun hefyd yn destun asesiad allanol ar ffurf proses o adolygu gan gymheiriaid a hwyluswyd gan y Good Governance Institute. Er bod y cynllun a'i atodiadau yn ymestyn i bron 300 tudalen, mae'r ddogfen wedi ei strwythuro a'i hesbonio yn dda. Yn y cynllun, pennir yn eglur i ba gyfeiriad y bydd yr Ymddiriedolaeth yn symud, ac mae chwe thema strategol y cynllun yn amlwg yn y ddogfen drwyddi draw.

**14.** Yn Asesiad Strwythuredig y llynedd, dywedasom nad oedd materion gweithlu yn cael digon o amlygrwydd o fewn yr CCI. Eleni, canfuom fod rhagor o waith eto gan yr Ymddiriedolaeth i'w wneud er mwyn sicrhau ei bod yn gynllunio'r gweithlu mewn ffordd systematig a strategol. Yng nghyfarfod Ionawr 2015 o'r Bwrdd, trafodwyd yr angen i

wella'r dolenni cyswllt yn yr CCI rhwng yr agweddau ar gynllunio gwasanaethau a'r gweithlu. Yn yr un modd, er bod yr CCI yn cynnwys pob un o'r adrannau o'r cynllun a bennir yn y templed cenedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â'r gweithlu, daeth ein hadolygiad ninnau o'r CCI i'r casgliad nad yw prif gorff y cynllun yn ystyried materion gweithlu yn systematig. Er enghraifft, yn yr adran o'r CCI ar Gyflawni Ein Cynllun (Delivering Our Plan) rhoddir enghreifftiau o amcanion a gweithredoedd penodol mewn cysylltiad â'r gweithlu, ond mewn perthynas â rhai amcanion eraill sy'n ymwneud â chynnydd arfaethedig mewn gweithgarwch neu ddarparu gwasanaethau ychwanegol, gellir ystyried yn fwy penodol y camau gweithredu sydd eu hangen mewn cysylltiad â'r gweithlu.

**15.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen gwella'r modd y cynllunnir y gweithlu, a thrwy'r CCI mae'r is-adrannau yn awr yn cael eu herio i ffocysu ar a oes modd iddynt, ai peidio, gyflenwi eu blaenoriaethau gyda' staff a'u sgiliau sydd ganddynt. Drwy'r ailstrwythuro presennol sy'n digwydd yn y Tîm Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, mae'r Ymddiriedolaeth yn gobeithio hefyd y bydd yn cryfhau ei harbenigedd cynllunio gweithlu. Bydd y datblygiadau hyn yn bwysig yn y blynyddoedd sy'n dod, gan fod Fframwaith Cynllunio 2016-17 newydd y GIG yn cynyddu'r pwyslais ar gynllunio gweithlu.

**16.** Yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd, tra oedd cynlluniau gweithredu manwl ar gyfer yr CCI yn cael eu monitro ar lefel yr is-adrannau, amlygwyd bod lle i wella'r modd yr oedd perfformiad o fewn y flwyddyn yn cael ei fonitro gyferbyn â'r cynllun ar lefel y gorfforaeth.

**17.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd nifer o gamau i gryfhau ei threfniadau ar gyfer monitro'r cynnydd gyferbyn â'r CCI. Parhau i ymsefydlu y mae'r trefniadau newydd hyn, a disgwylir i bob is-adran gyflwyno ffurflen fisol sy'n disgrifio'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r CCI. Mae'r ffurflenni hyn yn destun craffu gan Grŵp Cynllunio'r Ymddiriedolaeth, ac yn cael eu hystyried mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd Rheoli Gweithredol (BRhG).

**18.** Un ffactor pwysig yw'r mecanwaith corfforaethol a weithredir gan yr Ymddiriedolaeth i olrhain a sbarduno cyflawniad yr CCI, ac a elwir yn 'Fframwaith Cyflenwi a Monitro'r CCI'. Bu datblygu'r fframwaith yn waith anodd a chymhleth. Mae wedi golygu newid yn sylweddol y dull o adrodd am berfformiad yn ogystal â dyrannu'r cyfrifoldeb am fonitro pob un o amcanion yr CCI i bwyllgorau penodol. Daethom i'r casgliad bod y fframwaith yn gam positif ymlaen yn yr ymdrechion i wneud yr CCI yn rhan integredig o weithgarwch arferol y sefydliad. Rhoddir manylion pellach am y fframwaith yn yr adran Rheoli Perfformiad o'r adroddiad hwn.

**19.** Roedd y staff a'r swyddogion y buom yn eu cyfweld yn cydnabod bod ymagwedd yr Ymddiriedolaeth at gynllunio strategol wedi bod yn or-uchelgeisiol weithiau, a'r cynlluniau, o ganlyniad, wedi ceisio cyflawni gormod ar adeg pan oedd amser ac adnoddau'n brin. Dywedwyd wrth gyfarfod Medi 2015 o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth na fydd nifer o'r camau gweithredu o'r CCI yn cael eu cyflawni mewn pryd, ac yn yr adroddiad monitro a gyflwynwyd yn y cyfarfod hwnnw, tynnwyd sylw at risgiau 'critigol' ynglŷn â chyflawni naw o'r amcanion CCI[2]. Rydym yn canmol yr Ymddiriedolaeth am ei hagwedd uchelgeisiol tuag at gynllunio canoldymor; fodd bynnag, dylid canolbwyntio'n eglur ar sicrhau y bydd blynyddoedd nesaf yr CCI yn rhai realistig, o ran yr amcanion y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu gosod iddi ei hunan, o gymharu â'r adnoddau a fydd ar gael. Mae darparu tystiolaeth o gyflawni'r cynlluniau yn fater a bwysleisir fel blaenoriaeth hefyd fel o fewn Fframwaith Cynllunio 2016-17 newydd y GIG.

**20.** Mewn perthynas â'r camau gweithredu CCI na chânt eu cyflawni mewn pryd, mae'n bwysig bod y Bwrdd yn adfyfyrio ar y materion hyn ac yn penderfynu ar unrhyw weithredu penodol sy'n ofynnol. Sylwn fod trafodaethau ar y materion hyn wedi eu cynnal ar lefel y pwyllgorau, a bod y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg wedi trafod yn benodol yr agweddau o'r cynllun sy'n ymwneud â TG a heb eu cyflawni mewn pryd, ac y cyflwynwyd disgrifiad cryno o'r trafodaethau hynny i'r Bwrdd. Yn y dyfodol, fodd bynnag, credwn y dylid cryfhau'r craffu ar y materion hyn gan y Bwrdd, fel y gall y Bwrdd wneud penderfyniadau ynghylch eitemau yn yr CCI nas cyflawnwyd mewn pryd, a phenderfynu a oes angen ail-flaenoriaethu neu ail-raglennu unrhyw gamau gweithredu.

**21.** Er mai'r CCI yw dogfen gynllunio sefydliadol allweddol yr Ymddiriedolaeth, mae gwaith yn parhau o fewn yr Ymddiriedolaeth i gwblhau nifer o strategaethau galluogi pwysig sy'n atgyfnerthu'r CCI. Er enghraifft, disgwylir gosod fersiwn derfynol o'r Strategaeth Ddatblygu Sefydliadol, **Adeiladu Ragoriaeth** gerbron Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn Rhagfyr 2015[3]. Mae gan y Strategaeth Ddatblygu Sefydliadol botensial sylweddol i sbarduno gwelliannau yn yr Ymddiriedolaeth, yn enwedig drwy ganolbwyntio ar werthoedd ac ymddygiadau. Rhoddir manylion pellach am y strategaeth yn yr adran o'r adroddiad hwn sy'n ymdrin â'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.

**22.** Mae gwaith yn parhau hefyd ar y Strategaeth Ystadau. Rhagwelid y byddai'r strategaeth yn gyflawn erbyn mis Hydref 2015 ond disgwylir bellach y bydd yn barod ym Mai 2016, os gelir cwblhau arolwg cyflwr mewn pryd yn GGC. Cymeradwywyd y Strategaeth Rheoli Risgiau gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Bwrdd ym Medi 2015. Rhoddir manylion pellach yn yr adran o'r adroddiad hwn sy'n ymdrin â Rheoli Risgiau.

[2] Mae'r adroddiad monitro yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaed gyferbyn â thua 50 o amcanion, ac yn tynnu sylw at naw o risgiau critigol.

[3] Cynhaliodd y Bwrdd sesiwn ddatblygu ar y Strategaeth Ddatblygu Sefydliadol ym ystod Tachwedd 2015.

**23.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o bwysigrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac wedi aseinio'r agenda honno i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad. Hyd yma ni wnaed unrhyw symudiad sylweddol i sefydlu rhaglen waith na chyfres o gamau gweithredu mewn perthynas â rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth adfyfyrio ar y modd y bydd egwyddorion eang, hollgynhwysol y Ddeddf hon yn dylanwadu ar y ffordd y bydd yn gwneud ei phenderfyniadau; a bydd angen iddi roi ystyriaeth lawn i'r Ddeddf wrth ddiweddaru ei CCI. Disgwylir y bydd y Bwrdd yn ystyried y Ddeddf yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.

**Strwythurau llywodraethu a phwyllgorau:** mae'r pwyllgorau'n darparu craffu a sicrwydd effeithiol, a gwaith yn parhau i wella'r agendâu ymhellach. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr angen i adolygu trefniadau llywodraethu'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser (TGC) a rhoi sylw i gynllunio olyniaeth ar gyfer Aelodau Annibynnol (AAau)

**24.** Daeth Asesiad Strwythuredig y llynedd i'r casgliad bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i gynorthwyo effeithiolrwydd Bwrdd. Eleni eto rydym wedi canfod cryfderau yn y trefniadau ar gyfer craffu a sicrwydd Bwrdd. Wrth arsylwi mewn nifer o gyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau, gwelsom drefniadau positif a chlywsom drafodaethau agored a diffuant. Roedd yr ymddygiadau a amlygwyd mewn pwyllgorau yn gadarnhaol o chefnogol, ac anfonid nodiadau i longyfarch staff a fu'n gysylltiedig â phrosiectau llwyddiannus ac adroddiadau archwilio cadarnhaol.

**25.** Sylwom ar lefel briodol o herio gan yr AAau, a oedd yn amlwg yn gefnogol i'r cyfeiriad yr oedd y sefydliad yn symud iddo, ac yr oedd eu perthynas â'r uwch-swyddogion yn ymddangos yn adeiladol. Roedd ein gwaith ni yn tynnu sylw at y risgiau ynglŷn â chynllunio olyniaeth, gan y bydd tymhorau dau o'r AAau yn dod i ben ym Mawrth 2017. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ystyrid yr opsiynau ar gyfer cylchdroi'r aelodaeth AA mewn pwyllgorau, er mwyn sicrhau bod pob aelod annibynnol yn dod i gyffyrddiad ag ystod ehangach o faterion a chael cyfle i graffu arnynt. Yn ogystal mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'r perygl y gellid colli'r arbenigedd y mae pob AA wedi ei ddatblygu drwy fod yn aelod o bwyllgor penodol, drwy gylchdroi aelodau yn y modd hwnnw.

**26.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddiwylliant positif a threfniadau da ar gyfer dysgu gwersi. Mae'r Is-bwyllgor Dysgu Sefydliadol yn adrodd wrth y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, ac er bod hynny'n ymddangos yn fecanwaith dibynadwy ar gyfer lledaenu gwersi a ddysgir ledled y sefydliad, mae'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn adolygu rôl yr is-bwyllgor. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn dangos awydd i ddysgu gwersi sefydliadol. Er enghraifft, bu'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried adroddiad y mynnodd ei gael, a oedd yn amcanu i ddysgu gwersi o'r problemau caffael a oedd yn gysylltiedig â phrosiect ystadau Dafen. Mae'r mater hwn wedi peri i'r Pwyllgor Archwilio gynllunio cyfres o eitemau agenda mewn perthynas â chaffael. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynllunio hefyd i rannu'r dysgu cadarnhaol o ganlyniad i weithredu'r System Gyfrifiadurol Sefydliad Gwaed yn GGC.

**27.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu cylch gorchwyl pob pwyllgor yn flynyddol, ac mae rhestrau sicrwydd pwyllgor[4] wedi eu paratoi ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol. Mae gwaith ar droed i gwblhau'r rhestr sicrwydd ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

**28.** Mae gan y Bwrdd a'i bwyllgorau raglenni gwaith sydd wedi eu cytuno; fodd bynnag, mae rheoli agendâu prysur yn waith anodd, yn enwedig ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad. Er mwyn cael y budd gorau o'r amseroedd cyfarfod, mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd y camau pragmatig canlynol:

- Ar hyn o bryd cynhelir cyfarfodydd o'r Bwrdd chwe gwaith y flwyddyn, ond mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried yn ddifrifol cyfarfod yn amlach. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi estyn hyd cyfarfodydd y Bwrdd, mewn ymgais i sicrhau y ceir digon o amser ystyried i eitemau pwysig ar yr agenda.
- Mae'r 'agenda gydsynio'[5] yn ymddangos yn fecanwaith effeithiol ar gyfer sicrhau y neilltuir amser digonol mewn cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor i'r materion pwysicaf. Mae hon wedi ei defnyddio yng nghyfarfodydd y Bwrdd ers tua dwy flynedd ac wedi ei chyflwyno'n raddol yn agendâu'r pwyllgorau.

**29.** Mae ein harsylwadau mewn cyfarfodydd a'n hadolygiadau o ddogfennau yn awgrymu bod lle i wella tudalennau clawr papurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau. Dywed Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru[6] y dylai clawr papur Bwrdd gynnwys y canlynol: enw'r awdur, crynodeb byr o'r mater dan sylw, y fforymau sefydliadol yr ystyriwyd y papur ynddynt, yr amcan strategol neu'r gofyniad rheoleiddiol a drafodir yn y papur, a dynodiad eglur o'r hyn a fynnir gan y Bwrdd neu'r pwyllgor. Er bod gan yr Ymddiriedolaeth dempled ar gyfer drafftio'r cloriau hyn, ychydig o safoni sydd i'w weld yn y ffordd y mae papurau'n disgrifio diben yr eitem agenda a'r deilliant a ddisgwylid ohoni. Roedd llawer o'r cloriau yn ailadroddus, gyda'r adran Diben a Chamau Gweithredu yn dyblygu cynnwys yr adran 'Gweithredoedd/argymhellion i'r Bwrdd/pwyllgor'. Mater cymharol syml fyddai cywiro'r diffygion hyn, a byddai'n fanteisiol lleihau maint y papurau a chael gwell eglurder ynghylch y deiliannau a geisir gan bob eitem agenda.

**30.** Sylwom fod y modd y cadeirid y Bwrdd a chyfarfodydd pwyllgorau yn gryf yn gyson, ond fod lle i wella'r dull o gau eitemau agenda yn ffurfiol. Gwelsom enghreifftiau pan roddwyd dogfennau pwysig ar yr agenda at y diben o'u cymeradwyo neu wneud penderfyniad, ond ni chaewyd y drafodaeth gyda chadarnhad penodol fod yr aelodau'n fodlon ar weithredu yn y modd a gynigid. Ni chredwn fod yr arferion presennol wedi cael unrhyw effaith ar y penderfyniadau a wnaed ar y cyd, ond tybiwn fod modd cael gwell eglurder at ddibenion llywodraethu da.

[4] Mae'r rhestrau hyn yn diffinio sut y dylai pob pwyllgor gyflawni ei gyfrifoldebau.

[5] Mae'r dogfennau sydd i'w nodi, neu sydd er gwybodaeth, yn cael eu cynnwys yn gynnar yn yr agendâu, er mwyn lleihau'r amser trafod; cânt eu cymeradwyo'n awtomatig oni fydd aelodau'r pwyllgor yn gofyn yn benodol am drafodaeth.

[6] Academi Wales, **Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau'r GIG yng Nghymru: Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well**, 2014.

**31.** Yn ein hadolygiad o'r dogfennau, edrychwyd ar y cwestiwn pa un a oedd dwy brif is-adran yr Ymddiriedolaeth, sef CGF ac GGC, yn destun lefelau cytbwys o graffu gan y Bwrdd a'r pwyllgorau allweddol, ai peidio. Roedd ein hadolygiad o'r eitemau agenda ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn ystod 2015 yn dangos bod yr eitemau agenda penodol i CGF yn fwy cyffredin na'r eitemau penodol i GGC.[7] Dywedwyd wrthym fod cydbwysedd rhwng eitemau CGF ac GGC yn fater a ystyrir yn rheolaidd fel rhan o'r drefn arferol pan fo cadeiryddion a gweithredwyr blaen yn cyfarfod i bennu agendâu'r pwyllgorau.

**32.** Cynllun tra chymhleth ar gyfer dylunio a chyflawni model newydd o wasanaethau canser ar gyfer De-ddwyrain Cymru yw'r rhaglen TGC. Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer TGC hefyd yn gymhleth. Mae dau AA yn eistedd ar Bwyllgor Rheoli'r Rhaglen TGC, sydd wedi ei sefydlu i sicrhau craffu mwy rheolaidd a manwl nag y gellir ei ddarparu mewn cyfarfodydd o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Gan fod y ddau AA hefyd yn eistedd ar Fwrdd y Ymddiriedolaeth, sy'n craffu ar Bwyllgor Rheoli'r Rhaglen, mae risgiau llywodraethu yn codi mewn cysylltiad â Phwyllgor Rheoli'r Rhaglen. I bob pwrpas, mae'r ddau AA yn craffu arnynt eu hunain. Trafodwyd y materion hyn yn agored mewn uwch-bwyllgorau, a disgwylid y byddai Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal adolygiad manwl o'r pwyllgor rheoli a'i swyddogaethau yn ystod Tachwedd 2015. Oherwydd pwysigrwydd a chymhlethdod y rhaglen TGC, mae'r adroddiad hwn yn argymell y dylai'r Bwrdd, yn dilyn yr adolygiad o lywodraethu yn y rhaglen TGC gan Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth, drafod a phenderfynu ar y camau gweithredu sy'n ofynnol. Dylai'r Bwrdd hefyd ystyried a ddylai mwy na dau o'i AAau gymryd rhan ym Mhwyllgor Rheoli'r Rhaglen.

**33.** Mae'r trefniadau lletya o fewn yr Ymddiriedolaeth yn cymhlethu'r trefniadau llywodraethu ymhellach. Bu Ysgrifennydd y Bwrdd mewn cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru i drafod ac egluro rhai agweddau ar gyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth o ran llywodraethu, mewn perthynas â chyrff a letyir. Mae'r Papur Gwyrdd, **Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd**, yn rhoi cyfle allweddol i'r Ymddiriedolaeth ddylanwadu ar newid yn y trefniadau hyn.

[7] Roedd ein hadolygiad o bapurau 2015 hyd at a chan gynnwys 6 Hydref yn dangos bod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi ystyried 10 eitem benodol i CGF, tra ystyriodd ddwy eitem benodol i GGC. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi ystyried tair eitem benodol i CGF, o gymharu â dwy eitem benodol i GGC. Roedd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi ystyried 13 eitem benodol i CGF a saith eitem benodol i GGC.

**Rheoli risgiau a rheolaethau mewnol:** mae rheoli risgiau yn gwella – mae'r cofrestrau yn fwy amlwg ac yn cael eu hystyried yn amlach, ond gellir treulio amser gwerthfawr mewn pwyllgor yn trafod mân anghywirdebau yn y gofrestr risgiau

**34.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da eleni tuag at wella'i ffordd o ganfod a rheoli risgiau. Roedd y swyddogion a'r AAau y buom yn eu cyfweld fel rhan o'n gwaith yn cadarnhau y rhoddir llawer mwy o bwyslais ar risg erbyn hyn, o gymharu â 18 mis yn ôl, a bod yr adolygiadau is-adrannol chwarterol a'r trafodaethau mewn pwyllgorau yn canolbwyntio llawer mwy ar y cofrestri risg. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynllunio i gynnal sesiwn datblygu Bwrdd ar archwaeth a goddefiant risg, ac yn cyflwyno proses flynyddol i adolygu ei harchwaeth risg yn ffurfiol.

**35.** Cymeradwywyd Strategaeth Risg 2015-2018 gan y BRhG a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym Medi 2015. Mae'r strategaeth yn ddogfen eglur a chryno sy'n pennu fframwaith ar gyfer mynegi ei harchwaeth risg, a matrics i'w chynorthwyo i fod yn sensitif i risg wrth wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae rhywfaint o anghysondeb ar hyn o bryd yn y modd yr asesir ac y trafodir risgiau ar y lefelau gweithredol. Mae'r strategaeth yn gam ymlaen tuag at sicrhau y bydd pob rhan o'r sefydliad yn siarad iaith gyffredin mewn perthynas â risgiau; bydd y camau nesaf yn ymwneud â gwella cysondeb y ffordd yr asesir risgiau.

**36.** Sawl tro, wrth arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau, gwelsom fod fersiynau o'r gofrestr risgiau ar gael ar ddiwrnod y cyfarfod, a oedd yn wahanol i'r fersiwn o'r gofrestr a ddarparwyd cyn y cyfarfod. Ar adegau, roedd y naratif ynglŷn â'r risgiau yn anghywir neu heb ei ddiweddaru yn briodol. Rydym yn cydnabod bod yr Ymddiriedolaeth yn wynebu anawsterau wrth geisio darparu papurau ymlaen llaw cyn y cyfarfodydd a chyfleu darlun cyfoes o'r prif risgiau yr un pryd. Fodd bynnag, gall y dull presennol greu dryswch yn ogystal â gwastraffu amser gwerthfawr yn y cyfarfodydd; ac felly mae lle i wella ymhellach

**37.** Mae ein hadolygiad ddogfennol o'r gofrestr risgiau gorfforaethol yn dangos mai oedran cyfartalog yr wyth o risgiau yn y fersiwn a ystyriwyd gan y Bwrdd ym Medi 2015 oedd 725 diwrnod.[8] Nid oedd modd gwneud dadansoddiad arall o'r un math ac eithrio mewn dau gorff iechyd arall yng Nghymru, oherwydd nad oedd y gweddill yn cofnodi'r dyddiad y canfuwyd risg yn eu cofrestri risgiau. Yn y ddau fwrdd iechyd hynny oedrannau cyfartalog y risgiau oedd 595 diwrnod a 545 diwrnod. Yn achos tair risg yn unig, allan o'r wyth a gofnodwyd yng nghofrestr Felindre, yr oedd sgôr y risg wedi lleihau er pan ganfuwyd y risg gyntaf. Byddai'n anodd tynnu unrhyw gasgliadau ar sail y data hyn, a rhaid cydnabod bod rhai o risgiau'r Ymddiriedolaeth yn gysylltiedig â materion hirdymor cymhleth; ond cyflwynwn yr wybodaeth hon ar gyfer ei hystyried ac adfyfyrio arni.

[8] Os tynnir y risg hynaf ymaith o'r dadansoddiad hwn, mae'r oedran cyfartalog yn gostwng i 595 diwrnod. Canfuwyd y risg hynaf yn Ebrill 2011, ac mae'n ymwneud â safonau asbestos o fewn y ganolfan ganser.

**38.** Mewn adroddiad gan yr Archwiliad Mewnol a gyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Gorffennaf, tynnwyd sylw at rai materion sy'n parhau heb eu datrys ynglŷn â'r ymagwedd at risg. Roedd adroddiad y Gwasanaethau Corfforaethol yn dangos nad oedd cofrestr risgiau wedi ei sefydlu mewn pedair allan o bum adran. Deallwn fod cofrestri risgiau wedi eu hailsefydlu bellach ym mhob adran gorfforaethol, er bod gwaith yn parhau i gysoni'r cofrestri, er mwyn sicrhau nad oes gorgyffwrdd a dyblygu diangen. Hyd yma, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu a fydd, neu sut y bydd, yn integreiddio'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r CCI ac a nodir mewn adroddiadau perfformiad, gyda chofrestr risgiau'r Ymddiriedolaeth.

**39.** Yn ogystal ag adolygu'r modd y rheolir risgiau, roedd ein gwaith yn ystyried agweddau eraill ar amgylchedd rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth. Daethom i'r casgliad bod proses weinyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer olrhain y modd y gweithredir argymhellion archwilio yn ymddangos yn gadarn yn gyffredinol, a bod Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth wedi ymdrechu i ddysgu oddi wrth y dulliau olrhain a ddefnyddir mewn sefydliadau eraill. Mae'r pwyllgor hefyd wedi cynyddu lefel y craffu mewn sefyllfaoedd pan na chwblhawyd y camau gweithredu o ganlyniad i archwiliad o fewn y terfynau amser gofynnol, neu pan ofynnir am estyn y terfynau amser.

**40.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru o ran adrodd yn gyhoeddus am ei threfniadau llywodraethu ac ansawdd. Ym mis Hydref 2015, adroddwyd wrth y Pwyllgor Archwilio am yr adolygiad gan yr gwasanaeth archwilio mewnol o Ddatganiad Ansawdd Blynyddol (DAB) 2014-15. Rhoddwyd sgôr o 'sicrwydd sylweddol i'r archwiliad', a daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y DAB wedi ei baratoi gan ddefnyddio proses strwythuredig a phriodol mewn da bry, ymhell cyn y terfyn amser, sef Medi 2015. Darparwyd adborth gennym ni i gynorthwyo gyda drafftio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) yn Ebrill 2015, a chymeradwywyd y ddogfen derfynol gan y Pwyllgor Archwilio ym Mehefin 2015.

**41.** Yn Asesiad Strwythuredig y llynedd, roeddem yn argymell y dylai'r Ymddiriedolaeth, er mwyn tryloywder cyhoeddus, sicrhau bod ei gwefan yn darparu mynediad i'r holl bapurau pwyllgor, agendâu ac adroddiadau diweddaraf. Buom yn adolygu'r wefan eleni i weld a oedd papurau pwyllgor ar gael o fewn dwy wythnos i'r cyfarfodydd. Ar 15 Hydref 2015, nid oedd yr un o dudalennau gwe'r pwyllgorau yn gyfoes. Safle'r Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad oedd y mwyaf anghyfoes, gyda phapurau yn absennol ar gyfer pum cyfarfod.

**42.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei Chofrestr Lletygarwch a Datganiadau o Fuddiant yn ystod 2015 er mwyn sicrhau y labelir yn eglur y dyddiadau pan gafodd y lletygarwch ei gynnig, ei nodi a'i gymeradwy neu ei wrthod. Mae'r adran letygarwch yn y gofrestr wedi ei gwella drwy gynnwys gwerthoedd yr holl eitemau lletygarwch; ac mae'n ofynnol bellach fod y ffurflenni datganiad o fuddiant a ddefnyddir i boblogi'r gofrestr wedi eu cymeradwyo gan y cyfarwyddwr perthnasol. Bwriedir diweddaru hefyd y gofrestr letygarwch a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, gan adlewyrchu'r gwelliannau a wnaed eisoes yng nghofrestr yr Ymddiriedolaeth ei hunan. Byddai'n hwyluso craffu ar y dogfennau hyn pe bai'r eitemau lletygarwch a ddaeth i law cyn eu cymeradwyo wedi eu hamlygu drwy ddefnyddio llythrennau trwm.

**43.** Yn Asesiad Strwythuredig y llynedd, daethom i'r casgliad bod gan yr Ymddiriedolaeth raglen archwilio mewnol effeithiol. Eleni, rydym wedi sylwi ar berthnasau gwaith positif rhwng yr Ymddiriedolaeth, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Gwasanethau Archwilio a Sicrwydd) a'r Gwasanaethau Gwrth-dwyll Lleol. Mae penderfyniad yr Ymddiriedolaeth i ofyn i'r gwasanaeth archwilio mewnol ymgymryd â gwaith archwilio rhagolygol mewn cysylltiad â'r rhaglen TGC yn tystio ei bod yn meddwl yn rhagweithiol am fanteision archwilio.

**Rheoli perfformiad:** gwneir cynnydd da tuag at wella'r fframwaith rheoli perfformiad ymhellach a sicrhau bod cyflawni 'r CCI yn dod yn rhan mwy annatod o waith beunyddiol yr Ymddiriedolaeth

**44.** Daeth Asesiad Strwythuredig y llynedd i'r casgliad bod y trefniadau rheoli perfformiad yn gwella ac yn darparu sicrwydd digonol o fesurau perfformiad lefel uchel. Roedd angen gwneud gwaith pellach i gryfhau'r oruchwyliaeth o'r modd y cyflenwir yr CCI gan yr is-adrannau.

**45.** Eleni, sylwom ar waith sylweddol a wneir o fewn yr Ymddiriedolaeth i wella rheolaeth perfformiad, yn enwedig wrth oruchwylio cyflenwi'r CCI. Fel y nodir yn yr adran o'r adroddiad hwn ar Gynllunio Strategol a Gweithredol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni'r gwaith anodd a chymhleth o ddatblygu Fframwaith Cyflenwi a Datblygu'r CCI. Diben y fframwaith yw rhoi bywyd yn yr CCI drwy sicrhau gwell cysylltiad rhwng y modd y mesurir perfformiad o ran cyflenwi gweithredol ac amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth.

**46.** Yn rhan o'r fframwaith newydd, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu adroddiad perfformiad newydd ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Rydym wedi sylwi ar newidiadau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â'r dull newydd o reoli perfformiad. Dyrennir agweddau penodol o'r CCI i'r pwyllgorau i'w monitro, rhag llethu'r pwyllgorau gyda gwybodaeth sy'n cwmpasu'r CCI cyfan. Mae'r adroddiad newydd yn llawer byrrach na'r fersiynau blaenorol, yn cynnwys data tueddiadau sy'n pontio 12 mis, yn defnyddio system oleuadau traffig i amlygu meysydd sy'n peri pryder, ac yn darparu cysylltiadau eglur â'r CCI. Mae'r adroddiad hefyd yn defnyddio dull o adrodd am eithriadau sy'n rhoi mwy o amlygrwydd i achosion o berfformiad sydd islaw'r lefelau disgwyliedig.

**47.** Mae'r adborth gan aelodau'r pwyllgorau ynghylch y dull adrodd newydd yn gadarnhaol. Mae'n ymddangos bod y dull newydd yn ysgogi trafodaethau sy'n canolbwyntio'n well ac yn rhoi ystyriaeth fwy penodol i'r cynnydd gyferbyn â'r CCI. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau'r fframwaith hwn, a chanfuom fod lle i wella drwy roi sylw i'r materion canlynol:

- Gellid gwella'r dudalen gynnwys a'r croesgyfeirio yn yr adroddiad fel bod diben pob adran o'r adroddiad yn eglur i'r darllenydd.
- Mae'r adroddiad yn defnyddio tair system wahanol o godau lliw i amlygu'r lefelau o berfformiad, cynnydd gyferbyn â'r CCI, a statws y risgiau. Dylai'r Ymddiriedolaeth ofyn barn aelodau'r Bwrdd/pwyllgorau, a hwyrach y Cyngor Iechyd Cymuned, ynghylch y dull hwn o ddefnyddio codau lliw er mwyn sicrhau ei fod mor eglur ag y bo modd.

- Fel sy'n digwydd yn gyffredin mewn llawer sefydliad, mae'n anodd weithiau i'r Ymddiriedolaeth wrthbwyso'r angen i sicrhau bod y data a ddarperir i'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn gyfoes, yn erbyn yr angen i ddarparu papurau i'r aelodau yn ddigon cynnar cyn cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Er enghraifft, cyflwynwyd data o fis Gorffennaf i gyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd yn hwyr ym mis Medi.
- Yng nghyfarfod mis Medi o'r Bwrdd, trafodwyd yr angen i gryfhau'r naratif a ddarperir yn yr adroddiadau ar eithriadau. Hwyrach y byddai'n fuddiol hefyd pe bai'r adroddiad yn esbonio'r criteria sy'n pennu a ddylai metrig fod yn destun adroddiad eithriad ai peidio.
- Nid yw'r adroddiad yn esbonio cyd-destun na phwysigrwydd pob dangosydd perfformiad. Gweithredir felly er mwyn cadw maint yr adroddiad yn hylaw. Fodd bynnag, mae rhai o'r dangosyddion yn anodd i'w deall heb rywfaint rhagor o wybodaeth, ac mae'r Cyngor Iechyd Cymuned eisoes wedi cwestiynu a yw'r wybodaeth am berfformiad yr Ymddiriedolaeth yn cael ei hesbonio'n ddigonol ar gyfer aelodau'r cyhoedd. Hwyrach y dylai'r adroddiad ddarparu rhagor o wybodaeth drwy gynnwys dolenni cyswllt electronig, neu rywfodd arall.

**48.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu cylch chwarterol o adolygiadau is-adrannol, pan fo'r Tîm Gweithredol yn cyfarfod ag uwch-dîm rheoli pob is-adran i graffu ar ei pherfformiad. Dywedwyd wrthym fod yr adolygiadau hyn yn heriol ond yn gefnogol hefyd, ac yn darparu fforwm da ar gyfer trafodaeth sy'n canolbwyntio ar y risgiau a materion eraill sy'n effeithio ar bob is-adran.

**49.** Sylwom ar rai gwendidau yn yr wybodaeth reoli sydd ar gael o fewn y sefydliad. Mae anhawster mynediad ar y data yn System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru (SGRhCC) yn rhwystro defnyddio data ar gyfer gwelliant yn y ganolfan ganser, er bod gwaith o fewn y rhaglen TGC yn darparu data mwy manwl ynglŷn â'r gweithgarwch a'r galw. Mae amheuaeth hefyd ynghylch cywirdeb a chyflawnrwydd y data ar gyfer rhai metrigau perfformiad ar gynnal arfarniadau o'r staff ac amserlenni recriwtio. Deillir y metrigau hyn o'r data a fewnbynnir i system genedlaethol y Cofnod Staff Electronig (CSE), ac mae ein gwaith yn y byrddau iechyd ledled Cymru wedi datgelu amheuon cyffelyb ynghylch cywirdeb a chyflawnrwydd rhai o'r data CSE.

**50.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyrru ymlaen â'r gwaith o wella ei dangosyddion perfformiad, yn enwedig yn GGC ac mewn perthynas â'r CCI. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod nad yw llawer o'r mesurau perfformiad ynglŷn â'r GGC yn canolbwyntio ar y materion pwysicaf a'r mwyaf perthnasol. Yn yr un modd, wrth i'r fframwaith CCI esblygu, daw'r Ymddiriedolaeth i gydnabod bod angen iddi wella'r dolenni cyswllt rhwng rhai o'r amcanion yn CCI a'r mesurau perfformiad cysylltiedig. Er enghraifft, roedd yr adroddiad perfformiad a ystyriwyd yng nghyfarfod Medi 2015 o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn cynnwys yr amcan, y rhoddwyd sgôr 'coch' iddo, o 'barhau i wella'r profiad o roi [gwaed]'. Er bod yr adroddiad yn rhoi'r argraff fod y profiad o roi gwaed hwyrach yn dirywio, mewn gwirionedd roedd y sgôr 'coch' yn ymwneud â diffyg cynnydd ynglŷn â chamau gweithredu penodol y bwriedid iddynt wella'r profiad o roi gwaed.

**51.** Er bod gwaith yn mynd yn ei flaen i ehangu gweithgareddau meincnodi gyda Chanolfan Ganser Clatterbridge, gellid gwella'r adroddiad perfformiad newydd drwy

gynnwys mwy o wybodaeth feincnodi ynddo. Er enghraifft, yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi, nodwyd nad oedd yr adroddiad perfformiad newydd yn gwneud yn gwneud yn eglur a oedd perfformiad absenoldeb salwch yr Ymddiriedolaeth yn well ynteu'n waeth na pherfformiad sefydliadau eraill. Rydym yn cydnabod bod rhaid i'r Ymddiriedolaeth gadw cydbwysedd rhwng darparu gwybodaeth feincnodi a darparu adroddiad o faint hylaw. Un posibilrwydd, hwyrach, fyddai darparu gwybodaeth feincnodi, pan fo modd, ar gyfer yr holl adroddiadau am eithriadau.

**52.** Mae'r amlygrwydd a roddir i brofiad y cleifion yn yr adroddiad perfformiad newydd yn ddatblygiad positif iawn. Gellir cryfhau'r adran ar brofiad y cleifion ymhellach drwy sicrhau darlun ehangach, mwy cynrychiadol, o brofiad y cleifion, yn hytrach na chyflwyno profiadau nifer fach o bobl.

**53.** Erbyn hyn, darperir adroddiad penodol ar brofiad y cleifion i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Yn yr adroddiad, nodir y modd y mae'r ganolfan ganser yn ymdrechu i gydymffurfio a'r gofynion, ledled Cymru, i fonitro profiad defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r adroddiad wedi ei gyflwyno'n dda ac yn cynnwys cymysgedd priodol o naratif a data. Dylai'r camau nesaf ganolbwyntio ar gynyddu maint y sampl o safbwyntiau a gynrychiolir, drwy ehangu'r dulliau a ddefnyddir i gasglu adborth gan bobl. Gellid darparu rhagor o fanylion hefyd am y camau uniongyrchol a gymerwyd fel ymateb i safbwyntiau'r bobl. Wrth fynd i'r afael â'r materion hyn, dylai'r Ymddiriedolaeth ddefnyddio ein hadroddiad ar Brofiad Defnyddwyr Gwasanaeth, 2013, fel ffynhonnell i gyfeirio ati

**54.** Gellid gwella'r adroddiad ar brofiad rhoddwyr gwaed, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch drwy ddysgu oddi wrth y dull a ddilynwyd yn adroddiad y ganolfan ganser ar brofiad cleifion. Mae'r adroddiad rhoddwyr gwaed yn dibynnu ar nifer fach o fetrigau, ac mae'r naratif sydd ynddo yn gyfyngedig iawn. Mae gwaith yn parhau rhwng GGC a gwasanaethau gwaed eraill, ar y posibilrwydd o gymharu profiadau rhoddwyr.

**55.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu y dylai fod ganddi broses fwy ffurfiol ar gyfer monitro perfformiad Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) o ran darparu gwasanaethau i'r Ymddiriedolaeth. Ym Mehefin 2015 cychwynnwyd cyfres o gyfarfodydd chwe-misol rhwng yr Ymddiriedolaeth a PCGC i drafod perfformiad y gwasanaethau a ddarperir i Felindre. Mae'r rhin yn ddatblygiadau positif.

**56.** Wrth adolygu'r wybodaeth a ddarperir yn adroddiadau perfformiad yr Ymddiriedolaeth, daethom i'r casgliad bod y darlun o'r perfformiad o fewn y sefydliad yn un positif i raddau helaeth. Mae'r prif feysydd lle mae'r perfformiad islaw'r lefelau disgwyliedig yn ymwneud â materion gweithlu; trafodir y materion hynny ymhellach yn yr adran Gweithlu a Datblygu Sefydliadol o'r adroddiad hwn. Yn adroddiadau perfformiad yr Ymddiriedolaeth, cyfeirir yn benodol at lwyddiannau yn y meysydd canlynol:

- darparu canlyniadau gwaed yn brydlon i ysbytai ledled Cymru
- diwallu'r galw am wasanaethau gwaed;
- sicrhau lefelau da o foddhad ymhlith cleifion a rhoddwyr gwaed;
- lleihau i'r eithaf heintiadau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd;
- atal marwolaethau annisgwyl ymhlith cleifion mewnol; a

- sicrhau bod cemotherapi/radiotherapi mewn argyfwng yn cychwyn yn ddiymdroi.

# Rheolaeth ariannol

## Mae rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gadarn ac mae'n debygol y bydd yn cadw o fewn ei chyllideb eleni. Parheir i wynebu rhai heriau, yn enwedig o ran cyllid a phwysau'r galw yn y ganolfan ganser, ac ar lefel yr Ymddiriedolaeth, mae lle iddi wella ymhellach ei hagwedd at arbedion

**57.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn ar gyfer rheolaeth ariannol o fewn y flwyddyn, ac mae'n parhau i ragweld y bydd wedi cadw o fewn ei chyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, sef 2015-16.

**58.** Datblygwyd cynlluniau ariannol yr Ymddiriedolaeth er mwyn cyflawni blaenoriaethau strategol, sicrhau cydbwysedd ariannol a bodloni'r gofynion o ran ansawdd a deilliannau. Gosodwyd cynllun cadarn a chytbwys ar gyfer 2015-16 sy'n cynnwys gofyniad am arbedion o £3.636 miliwn. Mae cynllun CCI tair-blynedd wedi ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Bwrdd a chan Lywodraeth Cymru. Rhoddir manylion pellach am yr CCI yn yr adran Cynllunio Strategol a Gweithredol o'r adroddiad hwn.

**59.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro ei sefyllfa ariannol yn fisol mewn ffordd dryloyw a chyson, ac nid oes tystiolaeth bod penderfyniadau ariannol wedi effeithio ar lefelau nac ansawdd y gwasanaethau.

**60.** Gwnaed trefniadau priodol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i ganfod arbedion posibl, sy'n ddarostyngedig i herio a chraffu. Erbyn mis chwech, mae 83 y cant o'r arbedion a gynlluniwyd hyd yma wedi eu gwireddu. Mae cyflawniad y cynlluniau gwella costau yn cael ei fonitro'n fisol, ac adroddir yn ei gylch wrth y Bwrdd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr angen i ostwng lefel yr arbedion anrheolaidd o'r blynyddoedd blaenorol, ond mae'n canfod hynny yn her.

**61.** Ym mis chwech, mae'r Ymddiriedolaeth ar ei ffordd i gyrraedd cydbwysedd ariannol cyffredinol yn 2015-16. Cydnabyddir y bydd y ganolfan ganser yn gorwario, ond disgwylir tanwariant gan GGC yn 2015-16, sydd i'w briodoli yn rhannol i ostyngiad bach yn y galw am gynhyrchion gwaed coch ac yn rhannol i effeithiau'r rhaglen o newid parhaus o fewn GGC.

**62.** Er gwaethaf y canfyddiadau positif uchod, roedd ein gwaith yn datgelu rhai meysydd a sy'n galw am sylw pellach gan yr Ymddiriedolaeth. Bydd heriau ariannol sylweddol yn wynebu CGF o hyn ymlaen oherwydd pwysau'r galw y mae'n llwyddo i'w wrthsefyll ar hyn o bryd, ac mae'n profi'n anodd dod o hyd i arbedion sy'n ddichonadwy a rheolaidd. Ni fydd y ganolfan ganser yn cadw o fewn ei chyllideb yn 2015-16, ac mae'n annhebygol o gyrraedd ei tharged arbedion cyfan o £2.6 miliwn, er y rhagwelir y bydd yr Ymddiriedolaeth gyfan ynn cadw o fewn ei chyllideb.

**63.** Ar ddechrau 2015-16 yn y ganolfan ganser, mabwysiadwyd cynllun gwella costau heriol a oedd yn ymgorffori gwerth rhai o'r arbedion anrheolaidd a wnaed yn ystod y blynyddoedd blaenorol.

**64.** Mae'r galw am wasanaeth yn y ganolfan ganser yn parhau i gynyddu, ac nid yw lefel y cyllid llinell sylfaen creiddiol wedi newid yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, er bod rhywfaint o gynnydd wedi digwydd yn flynyddol ar gyfer darparu gwasanaethau ychwanegol penodol. Mae'r Ymddiriedolaeth mewn trafodaethau ar hyn o bryd gyda chomisiynwyr ynghylch lefel y cyllid a ddarperir. Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu prosiect i ddatblygu model/mecanwaith costio canolfan ganser er mwyn sicrhau bod yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r llwybr claf yn cael eu cynnwys. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth gwblhau'r darnau gwaith hyn fel rhan o ddatblygiad strategaeth gyllido ar gyfer tymor hwy.

**65.** Fel ymateb i'r heriau ariannol a wynebir gan y canolfan ganser, mae Grŵp Cynaliadwyedd y Ganolfan, a gadeirir gan y Prif Weithredwr, bellach yn cyfarfod bob pythefnos i fonitro a thrafod y perfformiad ariannol. Er bod dibyniaeth yn parhau ar arbedion sy'n deilio o swyddi gwag, mae hynny i'w briodoli'n bennaf i drosiant naturiol a'r oedi cyn ailbenodi wedi i swydd fynd yn wag. Yn 2014 argymellasom fod yr Ymddiriedolaeth yn adolygu ei dull o gategoreiddio arbedion anrheolaidd mewn perthynas â staff. Mae hyn yn parhau i gael ei adolygu; fodd bynnag, mae gan yr Ymddiriedolaeth ddiffiniadau bellach, i'w helpu i wahaniaethu rhwng arbedion swyddi gwag rheolaidd ac anrheolaidd.[9]

**66.** Mae lle i wella ymhellach y ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn cynllunio ac yn sicrhau arbedion hirdymor. Er bod yr CCI yn cynnwys gofynion am arbedion a fydd yn pontio mwy nag un flwyddyn, nid oes cynlluniau wedi eu pennu ar gyfer y dyfodol hyd yma.

**67.** Ymgysylltir â deiliaid cyllidebau wrth ddatblygu'r cynlluniau gwella costau, ond nid oes tystiolaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol; rhagwelir, fodd bynnag, y bydd hynny'n newid yn y dyfodol.

**68.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod bod pwysau eraill ar y costau, ac mae'n eu rheoli drwy'r fframwaith rheoli risgiau. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth barhau i ganolbwyntio ar leihau ei dibyniaeth ar arbedion anrheolaidd a pharhau i fonitro'n ofalus y ffordd y cyflawnir yr arbedion a gynlluniwyd ar lefel yr is-adrannau. Bydd arbedion anrheolaidd a ddygwyd ymlaen o'r blynyddoedd blaenorol yn parhau i ychwanegu at faint yr arbedion a fydd yn ofynnol.

[9] Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried mai arbedion swyddi gwag rheolaidd yw'r rhai sy'n deillio o'r 'bwlch rheolaidd rhwng ymddiswyddo a recriwtio, oedi tra bo rheolwyr yn ailgynllunio rolau, mamolaeth, salwch etc'. Yn yr un modd, mae'r Ymddiriedolaeth yn diffinio arbedion swyddi gwag anrheolaidd fel rhai sy'n deillio o 'swyddi sy'n agored dros dro am resymau anrheolaidd megis anawsterau recriwtio penodol, neu er mwyn cyflawni arbedion ariannol, gwrthbwyso costau eraill, gohirio prosiect yn fwriadol etc'.

# Galluogwyr defnyddio adnoddau yn effeithlon, effeithiol a darbodus

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn buddsoddi'n dda mewn TGCh ac yn gweithio'n galed i ymgysylltu ag eraill, er ei bod yn wynebu nifer fach o heriau ynglŷn â'r gweithlu a risgiau i'w gallu i gyflwyno newid ar raddfa eang oherwydd materion galluoedd arweinyddol

**69.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried fy nghanfyddiadau ynglŷn â rheoli adnoddau, a gyflwynir o dan y themâu canlynol:

- Rheoli newid
- Y gweithlu a datblygu sefydliadol
- Partneriaethau ac ymgysylltu
- Systemau gwybodaeth a thechnoleg

**Rheoli newid:** mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd trwy gyfnod estynedig o newid pell-gyrhaeddol, ac er bod y rhaglenni ar gyfer newid yn symud ymlaen yn dda, mae maint y baich gwaith ychwanegol yn achosi risgiau i'r gallu i gyflenwi

**70.** Yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd, dywedwyd bod yr Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i gryfhau ymhellach ei galluoedd a'i galluogrwydd ac o ran newid, ond nodwyd bod ei gallu i newid o dan straen.

**71.** Ar hyn o bryd mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd trwy gyfnod estynedig o newid pell-gyrhaeddol a dwys. Mae'r trosiant i Wasanaeth Gwaed Cymru Gyfan yn newid enfawr sy'n cwmpasu nifer o wahanol sefydliadau, a'r gwaith o gynllunio, cyflenwi a chraffu ar y newid hwnnw yn sylweddol iawn. Yn yr un modd, mae'r rhaglen TGC yn ddatblygiad hollbwysig i'r Ymddiriedolaeth ac yn galw am lawer o ganolbwyntio a sylw gan uwch-aelodau o'r staff. Yn olaf, treuliwyd amser ac adnoddau sylweddol eisoes wrth greu'r Strategaeth Ddatblygu Sefydliadol, ond bydd gweithredu'r strategaeth yn golygu newid diwylliannol sylweddol a baich gwaith ychwanegol ar bob lefel. Trafodir y materion hyn ymhellach yn yr adran Gweithlu a Datblygu Sefydliadol o'r adroddiad hwn.

**72.** Er nad ydym wedi cynnal adolygiad manwl o'r rhaglenni newid hyn, mae'n gwaith maes yn awgrymu eu bod i gyd yn symud ymlaen yn dda. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru Gyfan yn parhau ar y trywydd iawn i fynd ar waith ym Mai 2016, er gwaethaf rhai risgiau arwyddocaol a gofnodwyd yn y gofrestr risgiau gorfforaethol. Mae'r rhaglen TGC hefyd yn symud ymlaen yn gyflym, gyda chwmni allanol wedi ei benodi yn gynghorydd technegol a rheolwr rhaglen; ac mae gwaith ar droed gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod achosion busnes niferus y rhaglen yn cydweddu â'r disgwyliadau cenedlaethol.

**73.** Mae maint y newid o fewn y sefydliad yn sylweddol ac yn ychwanegu'n fawr at y galwadau ar uwch-aelodau o'r staff. O ganlyniad, mae'r Tîm Gweithredol wedi gweithredu i gryfhau uwch-arweinyddiaeth y sefydliad ac ychwanegu at feysydd arbenigedd penodol. Erbyn hyn mae gan yr Ymddiriedolaeth gyfarwyddwyr cynorthwyol ar gyfer Gwybodeg, Cynllunio, Nyrsio a Datblygu Gwasanaethau, Ymchwil a Datblygu, Gweithlu, Datblygu Sefydliadol a Moderneiddio, yn ogystal â swyddi ar yr un lefel o fewn Cyllid. Er gwaethaf y cymorth ychwanegol a ddarperir gan y swyddi cyfarwyddwr cynorthwyol hyn, mae risgiau yn parhau ac rydym yn argymell bod y risg sy'n gysylltiedig â chyfyngiadau ar alluoedd uwch-reolwyr yn cael ei hasesu'n ffurfiol a'i chadw mewn golwg.

**74.** Mae'r BRhG bellach yn cyfarfod ddwywaith bob mis, gyda'r nod o sicrhau trafodaethau sy'n canolbwyntio'n fanylach ar faterion allweddol, drwy alluogi ffocysu ar wahân ar berfformiad/cyflenwi ac ar ansawdd/datblygu/gwella'r gwasanaeth. Hyd yma nid yw'r dull hwn o weithredu wedi ei werthuso.

**75.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod y byddai'n fanteisiol cryfhau'r sgiliau rheolaeth ac arweinyddiaeth ledled y sefydliad. Mae tua 40 o'r staff bellach wedi cwblhau'r rhaglen ddatblygu arweinyddiaeth newydd. Mantais bwysig arall, a allai ddeillio o'r rhaglen honno, yw hyrwyddo rhagor o gydweithio ac o ddysgu gwersi rhwng staff o'r gwahanol is-adrannau.

**Y gweithlu a datblygu sefydliadol:** er bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i wynebu nifer fach o anawsterau perfformiad mewn perthynas â materion gweithlu, mae gan y Strategaeth Ddatblygu Sefydliadol arfaethedig y potensial i sbarduno gwelliant

**76.** Yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd, dywedasom fod angen gwneud rhagor o waith mewn meysydd blaenoriaeth o fewn cynllunio gweithlu datblygu sefydliadol. Sylwom fod y gwaith a gychwynnwyd ar ôl penodi'r Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Gweithlu newydd yn dechrau cau'r bylchau yng ngalluoedd a galluogrwydd y gweithlu ac yn newid ffurf y gwasanaethau AD.

**77.** Pwrpas ailstrwythuro AD yw sicrhau bod y tîm yn cydweddu ag anghenion y sefydliad. Mae'r cam cyntaf yn yr ailstrwythuro wedi ei gwblhau a phenodiadau wedi eu gwneud i'r swyddi uwch-bartner busnes.

**78.** Fel y dywedwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, bwriedir rhoi'r Strategaeth Ddatblygu Sefydliadol, **Adeiladu Rhagoriaeth**, gerbron Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn Rhagfyr 2015. Nod y strategaeth yw ennyn diwylliant yn yr Ymddiriedolaeth a fydd yn croesawu newid tra'n parhau i ddarparu gofal o ansawdd uchel. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni gwaith helaeth i gefnogi'r strategaeth mewn perthynas â gwerthoedd ac ymddygiadau. Roedd papur a gyflwynwyd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym Medi 2015 yn cynnwys cyfres ddestlus a chofiadwy o werthoedd sefydliadol, y gellid dangos eu bod yn cysylltu â'r safbwyntiau a fynegwyd gan y staff yn ystod y cyfnod ymgynghori blaenorol. Roedd y staff a'r AAau a gyfwelwyd gennym yn cyfeirio'n gadarnhaol iawn at y Strategaeth Ddatblygu Sefydliadol. Yn ein barn ni, mae posibilrwydd cryf y gall y strategaeth hon sbarduno'r gwelliant a'r newid diwylliannol y bydd eu hangen ar yr Ymddiriedolaeth yn ystod y cyfnod estynedig hwn o newid dwys.

79. Sefydlwyd gweithgor gan yr Ymddiriedolaeth i gynllunio ac arwain y gwaith a fydd yn ofynnol ar gyfer ailddilysu nyrsys. Mae'n ymddangos bod yr Ymddiriedolaeth yn paratoi'n briodol drwy gymryd camau megis trafod y risgiau posibl mewn cyfarfodydd, cynnal asesiad risg a clustnodi adnodd ar gyfer gweinyddu'r prosesau ailddilysu.

80. Roedd Asesiad Strwythuredig y llynedd yn tynnu sylw at broblemau a oedd yn parhau gyda lefelau absenoldeb salwch yn yr Ymddiriedolaeth. Yn ystod Chwefror 2015, cynaliasom adolygiad a elwid **Cynyddu iechyd a llesiant y staff**, a daethom i'r casgliad bod dull yr Ymddiriedolaeth o ymdrin ag iechyd a llesiant y staff yn mynd trwy gyfnod ffurfiannol, ac yn ymddangos fel pe bai ar y llwybr cywir. Dywedasom y byddai ymagwedd strategol gryfach, a atgyfnerthid gan fframwaith gwerthuso cadarn yn helpu'r Ymddiriedolaeth i flaenoriaethu ei gweithredoedd a manteisio i'r eithaf ar ei chyfleoedd niferus i wella. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd bod:

- adfywiad y Tîm Gweithredol, swydd hwylusydd a gyllidwyd a chyfrifoldebau newydd y pwyllgorau yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer newid;
- yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr angen am ddull mwy strategol er mwyn blaenoriaethau a chydgysylltu ei gweithgareddau;
- hyfforddiant i reolwyr yn gymharol wan, cyfleoedd yn bodoli i wella iechyd galwedigaethol ymhellach ac agweddau calonogol i'r dulliau newydd o ymgysylltu â'r staff; a'r
- Ymddiriedolaeth yn barod i ddysgu, a rhai enghreifftiau da o ddefnyddio data i wella.

81. Mae cyfradd absenoldeb salwch yr Ymddiriedolaeth yn parhau'n uwch na'r targed. Er bod y gyfradd absenoldeb salwch nodweddiadol is na'r gyfradd mewn cyrff GIG eraill yng Nghymru, bu Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn trafod ei bryderon ynghylch dirywiad parhaus y perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn flaenorol wedi defnyddio cyllid 'buddsoddi i arbed' ar gyfer recriwtio Hwylusydd Iechyd a Llesiant. Fodd bynnag, mae'r hwylusydd wedi gadael y sefydliad, ac un o'r partneriaid busnes o fewn AD wedi ymgymryd â chyfrifoldebau'r hwylusydd. Hwyrach y bydd yr Ymddiriedolaeth yn dymuno ailystyried yr argymhellion o'n gwaith ar **Cynyddu iechyd a llesiant y staff**, er mwyn sicrhau ei hunan fod camau priodol wedi eu cymryd.

82. Yn ychwanegol at y materion ynglŷn â'r lefelau absenoldeb salwch, nodwn fod pedwar mater arall, sy'n cysylltiedig â'r gweithlu, yn wynebu'r Ymddiriedolaeth, sef:

- Ers mis Hydref 2013 2013, mae papura pwyllgor wedi nodi bod y gyfran o'r staff wedi nodi bod y gyfran o'r staff a gofnodwyd fel rhai a gafodd arfarniad perfformiad ac adolygiad datblygu ymhell islaw'r lefelau a ddisgwylid. Mae'r Ymddiriedolaeth bellach edi sefydlu gweithgor misol i roi sylw i'r mater hwn.
- Mae anawsterau recriwtio yn achosi cymhlethdodau wrth geisio datblygu a chyflenwi gwasanaethau. Yng nghofrestr risgiau'r Ymddiriedolaeth nodir risg gritigol mewn cysylltiad â chymhlethdodau wrth recriwtio meddygon iau i weithio yn y ganolfan ganser, er bod anawsterau o'r fath yn rhai a wynebir ledled Cymru. Digwyddodd achosion penodol o oedi hefyd wrth recriwtio staff ar gyfer tîm y rhaglen TGC. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu ei phrosesau recriwtio mewnol

ac yn ymgysylltu â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i drafod gwelliannau posibl yn y rhannau o'r broses recriwtio sydd y tu allan i'r Ymddiriedolaeth.

- Mae nifer o'r metrigau sy'n ymwneud â mynediad a phrydlondeb yn amrywio'n sylweddol o fis i fis. Un esboniad posibl o'r proffil perfformiad hwn yw mai cyfyngedig yw gallu gweithlu cymharol fach yr Ymddiriedolaeth i reoli anwadalwch yn y galluoedd a'r galw.
- Nodwyd eisoes, yn yr adran Cynllunio Strategol a Gweithredol o'r adroddiad hwn, fod angen cryfhau cynllunio'r gweithlu o fewn yr Ymddiriedolaeth.

**Partneriaethau ac ymgysylltu:** mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid ynglŷn â'i rhaglenni newidiadau mawr, ac yn cydnabod mor bwysig yw gwella'i ffordd o weithio mewn partneriaeth â'r staff, o ystyried maint y newid sefydliadol a gynllunnir

**83.** Y llynedd, daethom i'r casgliad bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar brosiectau penodol, a'i bod yn datblygu partneriaethau mwy rhagweithiol i gefnogi ei huchelgais ar gyfer newidiadau yn y gwasanaethau canser a gwaed.

**84.** Eleni, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cydnabod pwysigrwydd partneriaeth eang ac ymgysylltu mewn perthynas â'r rhaglen TGC. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer rhanddeiliaid eleni, a fu'n dwyn ynghyd tua 400 o bobl, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd a chynrychiolwyr rhwng 20 a 30 o wahanol sefydliadau rhanddeiliaid. Er bod ymgysylltiad gweddill GIG Cymru â TGC wedi bod yn gadarnhaol, yn enwedig ynglŷn â materion clinigol, bydd cynnal y partneriaethau cryfion hyn yn bwysig i barhad llwyddiant y rhaglen, yn enwedig wrth gytuno ar ei hagweddau ariannol.

**85.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgysylltu'n eang hefyd â sefydliadau partner ynglŷn â chynllunio a gweithredu Gwasanaeth Gwaed Cymru Gyfan (GGCG). Mae'r broses wedi cynnwys rhaglen ailadroddol o ymgysylltu er mwyn datblygu cynllun gwasanaeth, achos busnes a chynllun gweithredu ar gyfer GGCG. Roedd y sefydliadau cysylltiedig yn cynnwys cynghorau iechyd cymuned, NHS Blood and Transplant (NHSBT) yn Lloegr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC).

**86.** Oherwydd maint y newid diwylliannol a threfniadol a fydd yn digwydd o fewn yr Ymddiriedolaeth yn ystod y blynyddoedd nesaf, mae'n hanfodol cynnwys ac ymgysylltu â'r staff. Roedd canlyniadau'r "arolwg pwls" diweddar yn datgelu cefnogaeth dda ar gyfer newid ymhlith y staff, ond canlyniadau llai positif ynglŷn ag ymdeimlad y staff o gael eu cynnwys wrth gynllunio'r camau nesaf o'r newid.

**87.** Roedd paratoi'r Strategaeth Ddatblygu Sefydliadol yn cynnwys cyfnod penodol o ymgynghori pan gasglwyd tua 1,300 o sylwadau gan y staff. Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu i gynorthwyo gweithredu'r strategaeth.

**88.** Mae'r sefydliad yn cyhoeddi **Trust Talk**, sef cylchlythyr staff deufisol. Mae hon yn ffordd ddeniadol o gadw'r staff mewn cysylltiad â datblygiadau pwysig o fewn y sefydliad. Yn ogystal, cymerodd yr Ymddiriedolaeth y cam cadarnhaol o gynnal

Gweithdy Gweithio mewn Partneriaeth ym Medi 2015. Pwrpas y digwyddiad hwnnw oedd adeiladu ar y berthynas a oedd yn bodoli rhwng yr Ymddiriedolaeth a'i staff.

**89.** Wrth arsylwi ar gyfarfod Medi 2015 o'r Fforwm Partneriaeth Lleol sylwom fod cynrychiolaeth dda yn bresennol o'r tîm gweithredol. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd ymgysylltu â'r staff, yng ngolwg y tîm. Fodd bynnag, dau yn unig o gynrychiolwyr y staff oedd yn bresennol yn y cyfarfod; ac os bydd y lefel presenoldeb isel hon yn parhau, mae'r fforwm yn annhebygol o gyflenwi'r deilliannau a ddisgwylir ganddo. Y bwriad yn awr yw adolygu a diwygio aelodaeth a chylch gorchwyl y grŵp.

**90.** Mae asesiadau strwythuredig blaenorol wedi tynnu sylw at yr angen i wella gwaith partneriaeth mewnol drwy integreiddio'r ddwy brif is-adran ymhellach. Eleni mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd rhai camau positif ymlaen, megis rhannu arbenigedd staff ar gyfryngau cymdeithasol, integreiddio ymhellach y timau TG, a chysoni rhai o'r gweithgareddau gwella gwasanaeth ar draws yr is-adrannau. Yng nghyfarfod Medi o'r Fforwm Partneriaeth Lleol, dywedwyd y dylai uwch-dimau rheoli'r is-adrannau ddod yn fwy cyfarwydd â'i gilydd; ac yn ein cyfweliadau, roedd y staff yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i wella'r modd y rhennir adnoddau a sgiliau ar draws yr is-adrannau. Un cam syml i gael gwell dealltwriaeth rhwng yr is-adrannau, a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o bwy yw pwy o fewn strwythur yr Ymddiriedolaeth, fyddai datblygu diagram strwythurol a fyddai'n amlygu'r cyfrifoldebau unigol, o leiaf i lawr hyd at lefel y cyfarwyddwyr cynorthwyol.

**91.** Y llynedd, dywedasom fod yr Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu'n dda chleifion a rhoddwyr gwaed. Canfuom eto eleni fod trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn dda. Roedd Grŵp Cyswllt Cleifion y ganolfan ganser a'r Cyngor Iechyd Cymuned ill dau'n mynegi barn bositif am y parodrwydd i wrando ar safbwyntiau cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth ac i ymateb iddynt. Roedd cyflwyno arweinydd penodol ar gyfer profiad cleifion yn y ganolfan ganser yn gam positif arall ymlaen tuag at gryfhau'r arfer o wrando ar y cleifion.

**92.** Mae adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolaeth, **Gweithio i Wella,** yn datgan yn eglur y trefniadau a'r llinellau cyfrifoldeb ar gyfer ymdrin â chwynion, hawliadau a phryderon. Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym Medi 2015. Roedd adroddiad gan y gwasanaeth archwilio mewnol yn Ebrill 2015 yn rhoi sgôr o 'sicrwydd sylweddol' i'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â rheoli pryderon. Yn yr un modd, roedd adroddiad gan Wasanaethau Cronfa Risg Cymru ym Mehefin 2015 yn nodi perfformiad arbennig o dda o ran rheoli hawliadau a phryderon, ac yn amlygu cyfleoedd i wella ymhellach o ran rheoli materion iawn am gamweddau (er mai un gŵyn yn unig o dan y trefniadau iawn am gamweddau y mae'r Ymddiriedolaeth wedi ei rheoli hyd yma), gwella cysondeb llythyrau pryderon a diffinio llwybr ar gyfer dysgu o ganlyniad i bryderon.

**Systemau gwybodaeth a thechnoleg:** mae'r Ymddiriedolaeth yn buddsoddi'n gymharol dda mewn TGCh, ac i raddau helaeth mae'r adnoddau TGCh presennol yn effeithiol fel cymorth ar gyfer cyflenwi'r gwasanaethau, er bod nifer fach o broblemau gyda systemau, sy'n effeithio ar gyflenwi gwasanaethau

**93.** Roedd ein gwaith archwilio lleol eleni yn cynnwys **Adolygiad diagnostig o'r galluoedd ac adnoddau TGCh**, a ddaeth i'r casgliad bod lefel y buddsoddi mewn TGCh yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn gyfraneddol uwch nag yn y mwyafrif o'r cyrff GIG eraill; ac yr oedd ein gwaith diagnostig yn dynodi bod yr adnoddau TGCh cyfredol yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn gymorth effeithiol i raddau helaeth ar gyfer cyflenwi gofal iechyd. Daethom i' casgliad hwn oherwydd bod:

- lefel y buddsoddi mewn TGCh yn uwch na'r lefel a argymhellir, ac yn un o'r lefelau uchaf yng Nghymru;
- lefelau staffio ar gyfer TGCh yn uwch nag yn y mwyafrif o'r cyrff GIG eraill yng Nghymru, er mai ymwneud ag GGC yn unig y mae llawer o'r staff, ac nad oes staff ar gyfer rheoli gwybodaeth yn fewnol;
- ymrwymiad positif i TGCh o fewn yr Ymddiriedolaeth yn gyffredinol, a chanfyddiadau'r meddygon o'r cyfleusterau TG yn well nag yng ngweddill Cymru;
- cyflenwad da o ddyfeisiau TG ar gael i staff yr Ymddiriedolaeth, a mynediad ffisegol at gyfrifiaduron a systemau gwybodaeth glinigol yn dda;
- offer TGCh yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli'n dda, a dibynadwyedd y systemau yn ddigonol yn gyffredinol;
- y trefniadau cyfredol ar gyfer hyfforddiant yn cynnal hyfedredd mewn defnyddio'r systemau ac ansawdd yr wybodaeth sydd ynddynt yn gyffredinol; a
- meddygon yn defnyddio'r systemau TGCh clinigol prif-ffrwd i ddarparu gofal i'r cleifion, i raddau llawer mwy nag mewn llawer man arall yng Nghymru.

**94.** Yn ychwanegol at ein hadolygiad TGCh diagnostig, mae ein gwaith ar gyfer yr Asesiad Strwythuredig wedi tynnu sylw at y materion canlynol ynglŷn â TGCh a defnyddio technoleg yn gyffredinol:

- Mae'r gwaith cymhleth o sefydlu'r System Gyfrifiadurol Sefydliad Gwaed wedi ei gydnabod yn llwyddiant gan yr Ymddiriedolaeth, a chafwyd canmoliaeth i'r modd y cynlluniwyd y prosiect gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.
- Mae GGC yn dyrannu adnodd ac amser sylweddol i'r prosiect cenedlaethol i ddiweddaru'r System Rheoli Gwybodaeth Labordy (SRhGL). Mae hon yn system hanfodol i'r gwasanaeth gwaed, ond sylwn fod rhywfaint o bryder gan GGC ynglŷn ag oedi yn y prosiect, a'r galwadau ar amser tîm uwch-arweinwyr y gwasanaeth gwaed.
- Mae CGF yn parhau i wynebu anawsterau mewn cysylltiad â pherfformiad y system SGRhCC. Bu pwyllgorau'r Ymddiriedolaeth yn trafod y problemau hir-barhaus o ansefydlogrwydd a cholli mynediad i'r system, yn lleol ac yn genedlaethol, ac effaith hynny ar gyflenwi'r gwasanaethau. Bydd gwaith yn

cychwyn yn Rhagfyr 2015 ar y seilwaith sy'n cynnal SGRhCC, gyda'r bwriad o wella gwytnwch a dibynadwyedd y system.

- Bu'r Bwrdd hefyd yn trafod problemau ynglŷn â pheiriannau cyflymwyr unionlin (LINAC) y ganolfan ganser. Mae problemau gyda'r peiriannau LINAC hyn wedi tarfu ar gyflenwi'r gwasanaethau nifer o weithiau yn ystod y flwyddyn. Yn y cyfarfod o'r Bwrdd ym Medi 2015, nodwyd bod angen gwella'r naratif yn yr adroddiad perfformiad, fel y gellir monitro effaith problemau o'r fath.

# Atodiad 1

## Canfyddiadau Asesiad Strwythuredig Interim Gorffennaf 2015

Mae'r atodiad yn dangos y canfyddiadau interim o'r Asesiad Strwythuredig a ddarparwyd gennym i'r Ymddiriedolaeth mewn llythyr yng Ngorffennaf 2015.

### Cynllunio strategol a gweithredol

Mae gwaith yn mynd ymlaen i gwblhau strategaethau pwysig, ac er bod Cynllun Canoldymor Integredig yr Ymddiriedolaeth bellach wedi ei gymeradwyo, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi barhau i gyflenwi gyferbyn â'r amcanion a osododd iddi ei hunan

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo CCI yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2015-16 i 2017-18. Mae blwyddyn un o'r cynllun yn ddigon manwl i'w defnyddio fel cynllun cyflenwi.
- Yn y cyfweliadau, cydnabuwyd y gallai'r Ymddiriedolaeth fod wedi ceisio gwneud gormod yn y blynyddoedd blaenorol, ac y dylid canolbwyntio yn awr ar sicrhau bod y cynllun mor realistig ag y bo modd, yn nhermau'r amcanion a osodir gan yr Ymddiriedolaeth iddi ei hunan, o gymharu â'r adnoddau sydd ar gael.
- O ganlyniad i ailstrwythuro ei gweithlu a'r tîm datblygu sefydliadol, a datblygu ac estyn ei sgiliau cynllunio ehangach, bwriad yr Ymddiriedolaeth fydd ehangu ei hystyriaeth o faterion cynllunio gweithlu.
- Mae gwaith yn mynd ymlaen i gwblhau strategaethau ategol ar gyfer Datblygu Sefydliadol, Ystadau a Rheoli Risgiau.

### Trefniadau uwch-reolaeth

Mae'r tîm uwch-arweinwyr wedi ad-drefnu ei gyfarfod er mwyn canolbwyntio'n eglur ar feysydd allweddol ac wedi ychwanegu at ei alluoedd, ond mae rhai risgiau o ran galluoedd yn aros oherwydd y baich gwaith ychwanegol a achosir gan brosiectau newid mawr

- Gwnaed penodiadau i uwch-dîm rheoli'r Ymddiriedolaeth, a chydnabyddir bod angen i'r sefydliad yn awr barhau i adeiladu ar y cyfraniad a ddarperir gan yr adnodd newydd hwn, drwy gyfrwng y rhaglen ddatblygu, sydd eisoes yn cael ei rhoi ar waith.
- Fodd bynnag, mae galluoedd yr uwch reolwyr yn parhau'n rhwystr a allai atal yr Ymddiriedolaeth rhag cyflenwi oherwydd y baich gwaith ychwanegol achosir gan y rhaglenni newid cyfredol, megis creu Gwasanaeth Gwaed Cymru Gyfan a'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser (TGC).
- Mae'r Bwrdd Rheoli Gweithredol (BRhG) bellach yn cyfarfod ddwywaith bob mis, mewn ymgais i sicrhau trafodaethau sy'n canolbwyntio'n well ar faterion allweddol, drwy alluogi ffocysu ar wahân ar berfformiad/cyflenwi ac ar ansawdd/datblygu/gwella'r gwasanaeth. Hyd yma nid yw'r dull hwn o weithredu wedi ei werthuso.

- Cydnabyddir y gellir gwneud mwy i rannu sgiliau ac arbenigedd rhwng Gwasanaeth Gwaed Cymru (GGC) a Chanolfan Ganser Felindre (CGF). Mae gan y gwaith sydd ar droed ar y Strategaeth Ddatblygu Sefydliadol y potensial i wella'r modd y rhennir sgiliau.

## Strwythurau llywodraethu a phwyllgorau

Yng nghyfarfodydd y pwyllgorau cedwir cydbwysedd rhwng dathlu llwyddiannau a dysgu gwersi. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadw trefniadau llywodraethu'r rhaglen TGC dan arolwg

- Mae'r arsylwadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau wedi amlygu trefniadau positif, gyda thrafodaethau agored a herio priodol gan yr Aelodau Annibynnol.
- Sylwom ar ddiwylliant positif o ddathlu llwyddiannau, ac anfonid negeseuon i longyfarch staff a oedd yn gysylltiedig â phrosiectau llwyddiannus neu adroddiadau archwilio cadarnhaol.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dangos archwaeth i ddysgu gwersi pan fo'n briodol, megis o'r problemau caffael mewn cysylltiad â phrosiect ystadau Dafen.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynllunio i rannu'r hyn a ddysgwyd wrth weithredu'r System Gyfrifiadurol Sefydliad Gwaed yn GGC, a enillodd ganmoliaeth am y modd y'i cynlluniwyd gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.
- Mae'r modd y olrheinir argymhellion gan y Pwyllgor Archwilio yn ymddangos yn dda yn gyffredinol, ond er hynny,mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn ymdrechu i ddysgu oddi wrth y dulliau olrhain a ddefnyddir mewn sefydliadau eraill. Bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod yr angen i gryfhau'r broses ar gyfer gohirio dyddiadau cyflawni argymhellion.
- Mae cofrestri risgiau ac olrhain argymhellion yn amrywio rhwng Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) a'r Ymddiriedolaeth. Mae Pwyllgorau Archwilio'r Ymddiriedolaeth a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) wedi cynnal hunanasesiadau, ond gan ddefnyddio dogfennau gwahanol. Hwyrach y byddai'n fuddiol adolygu'r dulliau a ddefnyddiwyd, ac yna safoni'r arferion gorau ledled y sefydliad.
- Mae'r dull o lywodraethu'r rhaglen TGC yn gymhleth. Mae Aelodau Annibynnol yn eistedd ar Fwrdd y Rhaglen ond hefyd yn eistedd ar Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, sy'n craffu ar Fwrdd y Rhaglen. Mae'r risgiau wedi eu trafod yn agored a bydd y trefniadau'n cael eu hadolygu ymhen chwe mis.

## Rheoli perfformiad

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgymryd â gwaith heriol i ddiwygio ei fframwaith rheoli perfformiad a gwneud cyflenwi'r CCI yn ganolbwynt mwy amlwg yn ei gwaith beunyddiol

- Mae rhai gwendidau yn yr wybodaeth reoli sydd ar gael i reolwyr i'w defnyddio i wella gwasanethau. Mae'r gwendidau yn cynnwys hygyrchedd gwael y data SGRhCC data ac amheuon ynghylch cywirdeb a chyflawnrwydd y data mewn rhai meysydd megis arfarniadau staff a gwblhawyd ac amserlenni recriwtio.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn treialu dulliau newydd o fynd i'r afael â materion ynglŷn ag adrodd am perfformiad, gan gynnwys anhawster i adrodd am ddata yn brydlon wrth bwyllgorau, dyblygu gwaith wrth adrodd am ddata wrth wahanol bwyllgorau, a rhoi amlygrwydd cyfartal i fetrigau sy'n cyrraedd eu targed y gyson ac i'r rhai sy'n dangos perfformiad islaw'r lefelau disgwyliedig.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n galed i wella'r modd yr adroddir am berfformiad drwy'r Fframwaith Cyflenwi a Monitro'r CCI. Mae'r fframwaith yn amcanu i roi bywyd yn yr CCI drwy sicrhau gwell cysylltiad rhwng y modd y mesurir perfformiad o ran cyflenwi gweithredol ac amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro cyflawniad yr CCI yn amlach na'r llynedd, gan wneud yn ofynnol bod yr is-adrannau'n dychwelyd ffurflenni misol a'r BRhG yn ystyried y cynnydd a wneir yn fisol.
- Mae gwaith positif yn mynd ymlaen i gynyddu'r gweithgarwch meincnodi gyda Chanolfan Ganser Clatterbridge. Byddai'n fuddiol cynnwys gwybodaeth feincnodi yn amlach mewn adroddiadau pwyllgorau, yn ogystal â defnyddio meincnodi ar y lefel weithredol.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu y dylai fod ganddi broses fwy ffurfiol ar gyfer monitro perfformiad PCGC o ran cyflenwi gwasanaethau i'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth a PCGC bellach yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod perfformiad y gwasanaethau a ddarperir i Felindre.
- Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn chwarae rhan amlycach bellach mewn monitro perfformiad ystadau y cyrff a letyir ganddi.

## Rheoli risgiau:

### Mae'r dulliau o reoli risgiau yn newid wrth i'r cofrestri risgiau gael mwy o amlygrwydd a'u hystyried yn amlach

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu ei dull o reoli risgiau drwy ailasesu archwaeth risg y sefydliad, trefnu sesiwn datblygu Bwrdd ar risg, a datblygu ei phrosesau er mwyn sicrhau y paratoir y cofrestri risgiau mewn ffordd fwy cadarn, o'r gwaelod i fyny.
- Mynegwyd y farn wrthym fod llawer mwy o bwyslais bellach ar risg, o gymharu â 18 mis yn ôl, a bod yr adolygiadau is-adrannol chwarterol a'r trafodaethau mewn pwyllgorau yn awr yn canolbwyntio mwy ar y cofrestri risg.

- Mae lle i wella ymhellach y modd y rheolir risgiau; dywedodd rhai o'r staff wrthym nad yw'r dull o sgorio risgiau yn peri i'r risgiau mwyaf priodol gael y sylw pennaf bob tro.

## Partneriaethau ac ymgysylltu:

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio ymgysylltu gydag ystod o'r rhanddeiliaid ynglŷn â'r rhaglen TGC, a gwelir enghreifftiau positif o'r staff yn gwrando ar gleifion a defnyddwyr gwasanaeth

- Mae'r digwyddiadau cynllunio cyfranogol mewn perthynas â'r rhaglen TGC yn enghreifftiau o ymgysylltu rhagweithiol ag aelodau o'r staff, cleifion, gofalwyr a theuluoedd.
- Mynegwyd safbwyntiau positif gan Grŵp Cyswllt Cleifion CGF ynglŷn â'r parodrwydd i wrando ar safbwyntiau'r cleifion ac i ymateb iddynt.
- Roedd cyflwyno arweinydd penodol ar gyfer profiad y cleifion yn CGF yn gam positif ymlaen tuag at gryfhau ymhellach yr arfer o wrando ar y cleifion.
- Dywedwyd wrthym fod angen gwneud rhagor i sicrhau y bydd gweddill GIG Cymru yn cyfranogi ac yn ymgysylltu pan fydd yr Ymddiriedolaeth yn datblygu CCIau a chynlluniau eraill mewn perthynas â'r rhaglen TGC yn y dyfodol. Bydd datblygu partneriaethau cryfach yn bwysig os yw'r cynlluniau hyn i lwyddo.
- Mae angen gwneud rhag o waith i sicrhau y rhoddir cofnodion a phapurau'r Ymddiriedolaeth ar gael ar yr wefan o fewn dwy wythnos. Ym Mai 2015, roedd tudalennau gwe pedwar o'r pwyllgorau heb eu diweddaru.

## Perfformiad a'r defnydd o adnoddau

Mae proffil perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn bositif i raddau helaeth. Y materion pwysicaf sy'n codi yw'r rhai sy'n ymwneud â'i gweithlu

- Mae'r adroddiadau perfformiad yn cyfleu darlun positif yn bennaf, gan gyfeirio at lwyddiant i ddiwallu'r galw am wasanaethau gwaed, sicrhau lefelau uchel o foddhad ymhlith cleifion a rhoddwyr gwaed, ac osgoi heintiadau gofal iechyd yn llwyr ers mis Hydref 2014.
- Bu'r Ymddiriedolaeth yn cydweithio gyda'r Uned Gyflawni i ystyried gwelliannau yn y modd y cyflenwir gwasanaethau a mesurau effeithlonrwydd mewn radiotherapi.
- Mae'r gyfran o'r staff y cofnodir eu bod wedi cael arfarniad o'u perfformiad ymhell islaw'r lefelau a ddisgwylir, ac mae'r lefelau absenoldeb salwch yn uwch na'r targed
- Mae oedi yn y broses recriwtio yn achosi cymhlethdodau ar gyfer datblygu a chyflenwi gwasanaethau.

# Atodiad 2

## Argymhellion o Asesiad Strwythuredig 2014

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion o Asesiad Strwythuredig 2014 ynghyd â chrynodeb o'r cynnydd a wnaed gyferbyn â phob argymhelliad.

| Argymhelliad | | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|
| R1 | Cytuno gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar ddull priodol o ddosbarthu arbedion anrheolaidd mewn perthynas â staff. | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu diffiniadau a fydd yn gymorth i wahaniaethu rhwng arbedion swyddi gwag rheolaidd ac anrheolaidd. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried ei hymagwedd ymhellach. |
| R2 | Cwblhau strategaethau allweddol mewn perthynas â Datblygu Sefydliadol, Rheoli Risgiau ac Ystadau. | Cymeradwywyd y Strategaeth Rheoli Risgiau gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym Medi 2015. Disgwylir i'r Strategaeth Ddatblygu Sefydliadol gael ei gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn Rhagfyr 2015.<br>Y bwriad gwreiddiol oedd cwblhau'r Strategaeth ym mis Hydref 2015, ond trefnwyd bellach i'w chwblhau erbyn Mai 2016. |
| R3 | Datblygu dull, ar lefel y gorfforaeth, ar gyfer monitro cyflawniad y Cynllun Canoldymor Integredig, a fydd yn rhoi ystyriaeth i gyflawni'r amcanion cyffredinol, ac nid y camau gweithredu a gynlluniwyd yn unig. | Gwnaed cynnydd da o ran datblygu dull corfforaethol o fonitro'r modd y cyflawnir yr CCI. Mae'r adroddiad hwn eleni yn gwneud argymhelliad newydd ynglŷn â chryfhau'r craffu, ar lefel y Bwrdd, ar y camau gweithredu yn yr CCI sydd yn hwyr yn cael eu cyflawni.. |
| R4 | Sicrhau bod gwefan yr Ymddiriedolaeth yn darparu mynediad i'r fersiynau diweddaraf o'r holl bapurau pwyllgor, agendâu ac adroddiadau. | Nid yw'r argymhelliad hwn wedi ei gyflawni'n llwyr. Dengys ein hadolygiad o'r wefan fod angen gwneud gwaith pellach er mwyn sicrhau mynediad i'r papurau pwyllgor, agendâu ac adroddiadau. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru